**Cofnodion cyfarfod Fforwm Derbyn Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn rhithiol ar Teams ar ddydd Mawrth, 23 Mehefin 2026**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Wyn Thomas, Aelod Cabinet ar gyfer Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Cadeirydd); Enid Brophy, Pennaeth: Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant; Carol Davies, Pennaeth: Ysgol Dyffryn Cledlyn; Carys Morgan, Pennaeth: Ysgol Bro Pedr a Dorian Pugh, Pennaeth: Ysgol Henry Richard.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Elen James, Prif Swyddog Addysg a Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant; Gwion Dafydd, Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd; Cheryl Evans, Rheolwr Derbyniadau a Data Ysgolion; Carys Fowles, Rheolwr Cyllid: Ysgolion a Gofal Cwsmer a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(4.00pm – 4.17pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Ymddiheurodd Peter Leggett, Pennaeth: Ysgol Gynradd Rhydypennau a Catryn Lawrence, Pennaeth: Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Penllwyn am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2. **Datgelu buddiant personol**
   Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant personol.

3. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gyfarfu ar 20 Tachwedd 2025**
   **CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2025 yn gywir.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion**
   Dim.

5. **Polisi Derbyn 2027-2028**
   Dywedodd y Rheolwr Derbyniadau a Data Ysgolion fod y Polisi Derbyn ar gyfer 2027-2028 wedi cael ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 3 Mawrth 2026 a'i fod ar gael ar wefan y Cyngor. Byddai'r ymgynghoriad ar gyfer Polisi Derbyn 2028-2029 yn agor yn fuan ar gyfer ysgolion a chyrff llywodraethu.

   Esboniodd y Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd y byddai Asesiad Effaith Integredig yn cael ei gwblhau gan yr awdurdod lleol a'i gynnwys yn y Polisi o 2028-2029 ymlaen.

   Dywedodd Enid Brophy, Pennaeth: Ysgol Gynradd Gatholig Padarn Sant fod templed derbyniadau newydd gan Archesgobaeth Caerdydd-Menevia i'w ystyried gan Fwrdd y Llywodraethwyr ym mis Gorffennaf a byddai'n cael ei anfon ymlaen at y Rheolwr Derbyniadau a Data Ysgolion yn dilyn hyn.

   **CYTUNWYD** i nodi'r wybodaeth.

6. **Niferoedd Blwyddyn 7 - Medi 2026**
Eglurodd y Rheolwr Derbyniadau a Data Ysgolion fod data ar gyfer Medi 2026 wedi'i ddosbarthu er gwybodaeth. Nid oedd un disgybl wedi gwneud cais am le eto, ond roedd yn hysbys pa ysgolion yr oedd y disgybl yn dymuno eu mynychu. Ar wahân i hyn, nid oedd disgwyl llawer o newid.

Dywedodd y Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd fod yr amcanestyniadau ar nifer y disgyblion Blwyddyn 7 dros y blynyddoedd wedi bod yn gywir. Roedd derbyniad Blwyddyn 7 ar gyfer Medi 2026 yn gymharol iach, ond amcangyfrifodd amcanestyniadau ostyngiad ym mis Medi 2027, ac yna gostyngiad sylweddol y flwyddyn ganlynol.

Dywedodd y Cadeirydd mai hyn, i bob golwg, oedd y sefyllfa’n genedlaethol.

**CYTUNWYD** i nodi’r wybodaeth.

7. **Niferoedd Blwyddyn Derbyn – Medi 2026 a 2027**
Dywedodd y Rheolwr Derbyniadau a Data Ysgolion nad oedd llawer o broblemau wedi bod gyda derbyn disgyblion oedran dosbarth derbyn ar gyfer 2026 a bod y niferoedd bron yn derfynol. Roedd y broses ymgeisio am dderbyn ar gyfer 2027 hefyd yn mynd rhagddi ac roedd y rhan fwyaf o ysgolion o dan eu nifer derbyn. Roedd y niferoedd ar gyfer Medi 2026 yn uwch na’r nifer derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd Penparc ac Ysgol Gynradd Rhydypennau; fodd bynnag, roedd capasiti yn y ddwy ysgol.

Nododd y Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd fod amcanestyniadau yn dangos gostyngiad yn nifer y plant oedran dosbarth derbyn, yn enwedig ym mis Medi 2027. Fodd bynnag, roedd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau bob amser yn gynnar ac felly byddai'n allweddol monitro'r sefyllfa ac ailedrych ar yr amcanestyniadau os oes angen.

**CYTUNWYD** i nodi’r wybodaeth.

8. **Apeliadau Derbyn Ganol-Flwyddyn 2025-2026**
Dywedodd y Rheolwr Derbyniadau a Data Ysgolion fod wyth apêl wedi'u cael ar gyfer 2025-2026 ers y cyfarfod diwethaf ar 20 Tachwedd 2025. Roedd tri disgybl wedi cael lle yn Ysgol Gynradd Aberaeron ac, o'r pum apêl a gynhaliwyd mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Plascrug, rhoddwyd lle i dri, gyda'r ddau arall yn mynd o blaid yr awdurdod lleol.

Awgrymodd y Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd y byddai llai o apeliadau wrth symud ymlaen, o ystyried y capasiti dros ben yn y rhan fwyaf o ysgolion yr awdurdod lleol.

**CYTUNWYD** i nodi’r wybodaeth.

9. **Unrhyw fater arall**
Anogodd y Cadeirydd bawb i gymryd gofal yn ystod y tywydd poeth a ragwelwyd. Diolchodd i bawb a oedd yn bresennol am eu gwaith.

Diolchodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Diwylliant i'r Rheolwr Derbyniadau a Data Ysgolion a'r Rheolwr Corfforaethol: Atebolrwydd a Chynnydd am ddosbarthu gwybodaeth am gludiant ysgol gyda cheisiadau'r ysgol i rieni/gwarcheidwaid i wella ymwybyddiaeth.

**10. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

15 Hydref 2026 am 4yp ar Teams.